Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Diogelu
Safeguarding Board







# Annual Plan
# 2021-2022

| Cynnwys | Tudalen |
| --- | --- |
| **RHAGAIR GAN GADEIRYDD BWRDD DIOGELU CWM TAF MORGANNWG** | **3** |
| **DIOGELU YNG NGHWM TAF MORGANNWG** | **4** |
| **BETH YW'R DEILLIANNAU RYDYN NI'N BWRIADU EU CYFLAWNI ELENI?** | **6** |
| **1.** Sicrhau Ymateb Effeithiol i Effaith Pandemig COVID-19 | 7-10 |
| **2.** Cryfhau Cysylltiadau Diogelu â Phartneriaethau Eraill yn y Rhanbarth | 10-12 |
| **3.** Gwella'n Dull o Weithredu Mewn Ymateb i Bryderon Diogelu'r Cyhoedd | 12-14 |
| **Â PHWY YDYN NI'N BWRIADU CYDWEITHIO I GYFLAWNI'N HAMCANION?** | **14 -15** |
| **EIN CYLLIDEB** | **16** |
| **YDYCH CHI'N POENI AM RYWUN?** | **17** |
| **ATODIAD 1 – AELODAU'R BWRDD** | **18 – 20** |
| **ATODIAD 2 – STRWYTHUR Y BWRDD** | **21** |

# RHAGAIR GAN GADEIRYDD BWRDD DIOGELU CWM TAF MORGANNWG

***Croeso i Gynllun Blynyddol Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg.***

A minnau'n Gadeirydd newydd y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, rwy'n cydnabod yr anawsterau a'r heriau y mae ein hasiantaethau partner wedi'u hwynebu dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r Cynllun Blynyddol eleni yn cydnabod yr heriau hynny ac rydyn ni i gyd yn awyddus i ddysgu gwersi o flwyddyn pan oedd galw digynsail ar wasanaethau.

Mae'r Cynllun yma'n amlinellu'r hyn y bydd y Bwrdd yn canolbwyntio arni yn ystod 2021/22, er mwyn cyflawni ein nod i sicrhau bod pobl Cwm Taf Morgannwg yn cael eu diogelu rhag camdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed.

Cafodd cyfarfod aelodau'r Bwrdd ei gynnal ym mis Mawrth 2021 i gytuno ar y meysydd blaenoriaeth allweddol yr oedd angen canolbwyntio arnyn nhw yn ystod y flwyddyn i ddod. Roedd y penderfyniad yma'n seiliedig ar adolygiad manwl o'r gwersi a ddysgwyd gan asiantaethau partner dros y flwyddyn ddiwethaf, a dadansoddiad o'r materion diogelu cyfredol a chyffredin sy'n effeithio ar y rhanbarth. Bydd y blaenoriaethau yma'n cael gweithredu ochr yn ochr â swyddogaethau diogelu statudol craidd y Bwrdd ac yn ychwanegol atyn nhw

Rydyn ni'n parhau i roi pwyslais cryf ar weithio mewn partneriaeth ac mewn cydweithio, gan ein bod ni wedi cydnabod faint o waith sy'n cael ei wneud gan sefydliadau a grwpiau amrywiol mewn perthynas â diogelu a lles ledled y rhanbarth. Trwy weithio gyda'n gilydd ar themâu ac amcanion cyffredin, byddwn ni mewn sefyllfa gryfach i gyflawni'r hyn sydd ei angen i helpu i gadw ein cymunedau'n ddiogel.

Eleni, bydd y Bwrdd yn sicrhau ein bod ni, wrth wneud ein gwaith, yn parhau i chwilio am gyfleoedd i ymgysylltu â phlant, oedolion sydd mewn perygl, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol. Dyma annog unrhyw un sy'n dymuno cymryd rhan i ffonio Uned Fusnes y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ar 01443 490122, neu e-bostio: diogeluCTM@rctcbc.gov.uk

**Paul Mee, Cadeirydd Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg**



## 1. DIOGELU YNG NGHWM TAF MORGANNWG

Mae ardal Cwm Taf Morgannwg yn cynnwys ardaloedd awdurdodau lleol Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf lle mae bron i 440,000 o drigolion.

Mae **Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg** yn bartneriaeth statudol ag asiantaethau sy'n gyfrifol am ddiogelu plant ac oedolion mewn perygl yn ardal Cwm Taf Morgannwg. Mae'r Bwrdd yn sicrhau bod gan asiantaethau yn y rhanbarth drefniadau effeithiol ar waith er mwyn sicrhau bod pobl o bob oed sy'n byw yn y rhanbarth yn cael eu diogelu rhag cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu eu niweidio mewn ffyrdd eraill. Mae hyn hefyd yn golygu atal achosion o gam-drin, esgeuluso neu fathau eraill o niwed rhag digwydd.

Mae gan bawb gyfrifoldeb i gadw plant sydd ag anghenion gofal a chymorth posibl yn ddiogel. Mae hyn yn golygu teimlo'n ddiogel a bod yn ddiogel yn eu cartref neu yn eu cymuned, ysgol, gweithle neu unrhyw le arall maen nhw'n mynd.

Mae'r ddau brif amcan **diogelu** allweddol o ran **amddiffyn** ac **atal** yn sail i waith y Bwrdd ac yn llywio'r blaenoriaethau rydyn ni wedi cytuno arnyn nhw yn y Cynllun Blynyddol yma ar gyfer 2021/2022.

## Beth yw Cam-drin ac Esgeuluso?

- Mae'r term cam-drin yn golygu cam-drin corfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol.
- Mae'r term esgeuluso yn golygu peidio â diwallu anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol a seicolegol sylfaenol yr unigolyn, sy'n debygol o amharu ar ei les.

## Diogelu i Bawb

Mae Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg yn cyflawni ei amcanion yn unol â'r canllawiau statudol cenedlaethol fel sydd wedi'u nodi yn Rhan 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Ein nod yw gwella trefniadau diogelu i bawb. Mae

cydweithio rhwng trefniadau diogelu plant ac oedolion yn yr ardal wedi arwain at nifer o swyddogaethau ar y cyd, gan gynnwys Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ar y cyd. Mae'r Bwrdd yn parhau i fanteisio ar bob cyfle i gydweithio ar draws gwasanaethau diogelu plant ac oedolion i gefnogi gweithio ar y cyd a rhannu gwybodaeth a dysgu.

## Hybiau Diogelu Amlasiantaeth

Mae dwy Ganolfan ‘Hwb Diogelu Amlasiantaeth’ (MASH) yn rhanbarth Cwm Taf Morgannwg, sef:

**Hwb Diogelu Amlasiantaeth Cwm Taf** a **Hwb Diogelu Amlasiantaeth Pen-y-bont ar Ogwr**.

Bwriad yr Hwb Diogelu Amlasiantaeth yw bod yn bwynt cyswllt ar gyfer pob gweithiwr proffesiynol i roi gwybod am unrhyw bryderon am ddiogelwch. Mae'r Hwb yn darparu cyfle ar gyfer diogelu o safon uwch trwy roi rhagor o wybodaeth i bob gweithiwr proffesiynol er mwyn iddo wneud penderfyniadau gwell gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd ganddo. Mae'r Hwb wedi gwella'n sylweddol sut mae gwybodaeth yn cael ei rhannu rhwng asiantaethau, gan helpu i ddiogelu'r plant a'r oedolion mwyaf agored i niwed rhag cael eu niweidio, eu hesgeuluso a'u cam-drin.

## Pwy yw Aelodau'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol?

Prif bartner y Bwrdd yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae'r aelodaeth yn cydymffurfio â'r canllawiau statudol sydd yn Adran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014. Mae rhestr o aelodau wedi'i chynnwys yn Atodiad 1.

## Beth yw Swyddogaethau Craidd y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol?

Mae gan bob Bwrdd Diogelu Rhanbarthol gyfrifoldeb statudol i gyflawni swyddogaethau craidd mewn perthynas â gweithgarwch diogelu amlasiantaeth. Mae Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg yn cyflawni'r swyddogaethau yma o ddydd i ddydd trwy bwyllgorau ac is-grwpiau penodol (gweler Atodiad 2). Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyfrannu at waith datblygu, gweithredu a monitro protocolau a gweithdrefnau sy'n helpu i ddiogelu oedolion a phlant ac i'w hatal rhag cael eu cam-drin

- Codi ymwybyddiaeth o amcanion y Bwrdd i ddiogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl, a'u hatal rhag bod mewn perygl o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu'u niweidio mewn ffyrdd eraill, a darparu gwybodaeth am sut mae modd cyflawni hyn

- Adolygu effeithiolrwydd mesurau wedi'u cymryd gan asiantaethau i weithredu amcanion y Bwrdd, gwneud argymhellion a'u monitro

- Cynnal adolygiadau ymarfer plant, adolygiadau ymarfer oedolion, archwiliadau, ymchwiliadau ac arolygon eraill yn ôl yr angen yn unol â'i amcanion a dosbarthu dysgu a gwybodaeth sy'n codi o'r arolygon yma

- Adolygu cyflawniad y Bwrdd a'i bartneriaid a chyrff sy'n cael eu cynrychioli gan y Bwrdd wrth gyflawni ei amcanion;

- Hwyluso gwaith ymchwil i amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl o niwed rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso ac ymchwilio er mwyn atal hynny rhag digwydd

- Adolygu anghenion hyfforddi ymarferwyr sy'n gweithio yn ardal y Bwrdd er mwyn pennu hyfforddiant i helpu i ddiogelu'r plant ac oedolion sydd mewn perygl o niwed rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso, ac i atal hynny rhag digwydd

## 2. BETH YW'R DEILLIANNAU RYDYN NI'N BWRIADU EU CYFLAWNI ELENI?

Yn 2021/2022, bydd y Bwrdd yn gwneud y canlynol:

1. **Sicrhau Ymateb Effeithiol i Effaith Pandemig COVID-19**
2. **Cryfhau Cysylltiadau Diogelu â Phartneriaethau Eraill yn y Rhanbarth**
3. **Gwella ein Ffordd o Ymateb a Delio â Phryderon Diogelu'r Cyhoedd**

Bydd y Cynllun Blynyddol Strategol yma'n sail i gynllun gwaith manwl ar gyfer y Bwrdd a'i Is-grwpiau. Bydd y cynllun gwaith yn cynnwys y camau gweithredu angenrheidiol i gyflawni'r gwelliannau, manylion yr unigolyn cyfrifol, amserlenni a dulliau mesur llwyddiant.

Bydd cynnydd y cynllun gwaith yn cael ei fonitro a'i adolygu bob chwarter a bydd yn sail i'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2021-2022.

***Isod mae trosolwg o'r hyn y mae'r Bwrdd yn bwriadu ei wneud i gyflawni ei flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod.***

## Blaenoriaeth Strategol 1: Sicrhau Ymateb Effeithiol i Effaith Pandemig COVID-19

**Beth mae hyn yn ei olygu i'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol?**

Heb os nac oni bai, cafodd Pandemig COVID-19 a'r cyfyngiadau symud dilynol, effaith fawr ar waith y Bwrdd a'i asiantaethau partner. Yn ystod y cyfnod digynsail a heriol yma, roedd angen i'r Bwrdd sicrhau bod y rhai sydd fwyaf mewn perygl yn parhau i gael eu diogelu rhag camdriniaeth, esgeulustod a mathau eraill o niwed.

Sefydlwyd mesurau dros dro i sicrhau bod gwaith diogelu hanfodol yn parhau a bod y pwysau ar asiantaethau partner yn cael ei reoli a bod cymorth ar gael iddyn nhw. Roedd hyn yn cynnwys camu'n ôl o unrhyw waith nad oedd yn hanfodol a chyflwyno cyfarfodydd Efydd lleol a Gorchymyn Arian rhanbarthol i sicrhau bod ymateb i bryderon diogelu yn parhau i fod yn gydgysylltiedig.

Mae'r Bwrdd yn cydnabod, wrth inni ddod trwy'r cyfnod heriol yma, fod gwersi i'w dysgu ar gyfer y dyfodol, y dylid ailgyflwyno rhywfaint o waith nad oedd yn cael ei ystyried yn hanfodol - er mor dyngedfennol y cyfnod, a bod angen i ni reoli'r effaith y mae'r pandemig wedi'i chael yn anochel ar ein hasiantaethau partner, ein staff a'r bobl y mae'n gyfrifoldeb arnon ni i'w gwarchod.

| Maes Blaenoriaeth | Pa welliannau sydd angen i ni eu gwneud? | Sut byddwn ni'n mesur llwyddiant? |
|---|---|---|
| **Dysgu Gwersi i Wella Diogelu Amlasiantaethol** | Bydd y Bwrdd yn adeiladu ar ein dull gwell, cyfunol o weithio amlasiantaeth sydd wedi bod ar waith dros y flwyddyn ddiwethaf. Bydd hyn yn cynnwys:<br>▪ Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddarparu hyfforddiant diogelu rhithwir ac E-Ddysgu.<br>▪ Dull newydd o gyflwyno Achlysuron Dysgu o Adolygiadau Ymarfer gan ddefnyddio llwyfannau ar lein. | Bydd y Bwrdd yn parhau i fonitro ac adolygu'r trefniadau yma trwy'r dulliau canlynol:<br>▪ Adroddiadau rheolaidd i'r Bwrdd Diogelu gan Is-grwpiau ac asiantaethau partner<br>▪ Cyfathrebu â staff yn rheolaidd gan ddefnyddio dulliau electronig yn ogystal â sesiynau briffio |

| | | |
|---|---|---|
| | ▪ Defnyddio gwahanol ddulliau o ymgysylltu â phlant, oedolion sydd mewn perygl a'u teuluoedd trwy ddulliau rhithwir a dull hybrid o gynnal cyfarfodydd. | wyneb yn wyneb lle mae hyn yn bosibl<br>▪ Cynnal archwiliad cydymffurfio diogelu Adran 135 asiantaeth bartner, a'i ddefnyddio'n feincnod yn erbyn data 2019/2020. |
| **Cwblhau'r Camau Gweithredu Sydd Eto I'w Cyflawni o 2020-2021** | Rydyn ni wedi cydnabod bod gwaith y mae angen i ni ei gwblhau eleni, fel a ganlyn:<br>▪ Datblygu Fframwaith Dysgu Bwrdd Diogelu Rhanbarthol gyda'r nod o ymgorffori diwylliant o ddysgu ym mhob agwedd ar waith y Bwrdd<br>▪ Gweithredu protocol a phroses Hunan-esgeuluso ar gyfer oedolion<br>▪ Sicrhau bod ein holl brotocolau a chanllawiau Diogelu Plant ac Oedolion yn cael eu datganoli a'u bod yn cydymffurfio â Gweithdrefnau Diogelu Cymru<br>▪ Cwblhau archwiliadau rhagorol i sicrhau bod canlyniadau a dysgu yn cael eu lledaenu'n briodol | Erbyn Mawrth 2022 bydd y canlynol ar waith gan y bwrdd:<br>▪ Fframwaith Dysgu a fydd wedi'i ymgorffori yng ngwaith y Bwrdd.<br>▪ Dull rhanbarthol o reoli Hunan-esgeulustod mewn oedolion<br>▪ Pob protocol Amddiffyn Oedolion a Phlant Rhanbarthol yn cael ei ddiweddaru a'i gymeradwyo<br>▪ Cwblhau o leiaf 5 archwiliad lle mae modd rhannu dysgu gydag asiantaethau partner ar draws y rhanbarth |
| **Rhoi Llais yn Ôl i Bobl Unwaith Eto** | Mae'n anochel bod y cyfyngiadau symud wedi cael effaith ar sut roedd plant, ac yn enwedig oedolion sydd mewn perygl, wedi gallu ymgysylltu â gwasanaethau. Mae angen i ni sicrhau bod y rhai sydd fwyaf mewn perygl yn gallu ailymgysylltu ag asiantaethau a bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Bydd hyn yn cynnwys:<br>▪ Dioddefwyr Cam-drin Domestig<br>▪ Pobl agored i niwed a allai fod wedi bod yn cysgodi am gyfnod sylweddol o amser | Byddwn yn nodi'r dulliau ymgysylltu a chyfathrebu mwyaf priodol ac yn mesur effeithiolrwydd trwy wneud y canlynol:<br>▪ Defnyddio arolygon, holiaduron a gwerthusiadau<br>▪ Ceisio cyfleoedd i weithio gydag ystod o asiantaethau i'n helpu ni gyda'n hymgysylltiad, gan gynnwys darparwyr eiriolaeth |

| | | |
|---|---|---|
| | ▪ Rhieni sy'n ymwneud â Chynadleddau Amddiffyn Plant a Grwpiau Craidd i roi mwy o ddewis iddyn nhw ar sut maen nhw'n rhyngweithio ag asiantaethau | |
| **Diogelu Pobl sy'n byw mewn Cartrefi Gofal** | Yn dilyn effaith ddinistriol y pandemig, rydyn ni am sicrhau ein bod ni'n parhau i ddiogelu pobl sy'n byw mewn Cartrefi Gofal trwy fanteisio ar gyfleoedd wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio. Bydd hyn yn cynnwys:<br>▪ Sicrhau bod gweithwyr proffesiynol ac aelodau o'r teulu yn mynd yn ôl i mewn i Gartrefi Gofal mewn person, ac mewn modd diogel, i gynorthwyo arferion diogelu a'u gwella.<br>▪ Yn unol â'r uchod, bod yn gefn i'n preswylwyr a'u lles drwy sicrhau cyswllt wyneb yn wyneb.<br>▪ Sicrhau ein bod ni'n ymateb i unrhyw ganllawiau a mentrau gan y llywodraeth i gynorthwyo â'r uchod | Bydd y Bwrdd yn derbyn adroddiadau, trwy ei Is-Grŵp Sicrhau Ansawdd a Chyflawniad Oedolion ar:<br>▪ Nifer yr ymweliadau monitro dan gontract sy'n digwydd<br>▪ Adroddiadau diogelu sy'n gysylltiedig â Chartrefi Gofal<br>▪ Nifer yr asesiadau DoLS [1]sy'n cael eu cwblhau mewn Cartrefi Gofal |
| **Lles y Gweithlu** | Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi dod â heriau sylweddol i'r gweithlu, gyda newidiadau i drefniadau gweithio, newidiadau i flaenoriaethau a salwch staff / staff yn hunanynysu i gyd yn nodweddiadol o'r drefn arferol. Rydyn ni am barhau i sicrhau bod staff yn cael cymorth a bod eu lles yn cael ei flaenoriaethu trwy sicrhau'r canlynol:<br>▪ Cyfathrebu rheolaidd a gwell gan y Bwrdd i asiantaethau partner ar faterion sydd o bwys i staff<br>▪ Sicrhau bod gan ein hasiantaethau partner wasanaethau cymorth staff cadarn ar waith, gan | Bydd y Bwrdd yn derbyn adroddiadau, trwy ei Is-grwpiau amlasiantaethol, ar:<br>▪ Hyfforddi a Dysgu<br>▪ Cyfathrebu ac Ymgysylltu<br>▪ Materion Datblygu'r Gweithlu |

[1] Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS)

| | | |
|---|---|---|
| | gynnwys mynediad at hyfforddiant a datblygiad ar lein ac wyneb yn wyneb wrth i'r cyfyngiadau symud gae eu llacio. | |
| **Rheoli Galw** | Mae gwir effaith y pandemig ar ddiogelwch a lles unigolion eto i'w gweld. Serch hynny, wrth inni ddychwelyd i ryw fath o normalrwydd, mae angen i ni fod yn barod ar gyfer y galw cynyddol am wasanaethau ac adnoddau staffio. Gall hyn gynnwys:<br>▪ Cynnydd yn yr achosion o Gam-drin Domestig sy'n cael eu riportio.<br>▪ Iechyd meddwl a lles plant a phobl ifainc wrth iddyn nhw ddychwelyd i'r ysgol.<br>▪ Cynnydd mewn atgyfeiriadau diogelu wrth i'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ddychwelyd i ymweliadau wyneb yn wyneb. | Bydd y Bwrdd yn ceisio sicrwydd gan asiantaethau partner bod ganddyn nhw'r adnoddau a'r gallu i gwrdd ag unrhyw gynnydd posibl yn y galw. Bydd hyn yn cynnwys:<br>▪ Adroddiadau data rheolaidd i Is-grwpiau Sicrhau Ansawdd a Chyflawniad y Bwrdd<br>▪ Adrodd i'r Bwrdd ar unrhyw risgiau a nodwyd sy'n gofyn am ymateb. |

## Blaenoriaeth Strategol 2: Cryfhau Cysylltiadau Diogelu â Phartneriaethau eraill yn y Rhanbarth

**Beth mae hyn yn ei olygu i'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol?**

Mae partneriaethau yn rhanbarth Cwm Taf Morgannwg yn fanwl ac yn gymhleth. Bydd llawer o gynrychiolwyr ein hasiantaethau partner yn eistedd ar nifer o Fyrddau a Grwpiau sydd ag ystod eang o gyfrifoldebau a swyddogaethau.

O fewn ethos 'Diogelu yw Cyfrifoldeb Pawb', rydyn ni am wella a chryfhau ein cysylltiadau â Phartneriaethau eraill i wneud y mwyaf o unrhyw gyfleoedd i weithio ar y cyd i ddiogelu plant ac oedolion yn y rhanbarth.

Rydyn ni eisoes wedi gwneud cynnydd da ar hyn, yn enwedig mewn perthynas â'n hymatebion i Gam-drin Domestig ac Atal Hunanladdiad. Eleni, rydyn ni am wella'r cysylltiadau sydd gyda ni'n barod a'u cryfhau. Rydyn ni am estyn allan i feysydd eraill o bryder ac i feysydd sy'n gyffredin rhyngddyn ni.

| Maes Blaenoriaeth | Pa welliannau sydd angen i ni eu gwneud? | Sut byddwn ni'n mesur llwyddiant? |
|---|---|---|
| **Pennu Cwmpas y Partneriaethau** | Bydd y Bwrdd yn nodi ac yn pennu cwmpas rôl a chylch gwaith y partneriaethau sy'n gweithredu yn y rhanbarth mewn perthynas â diogelu. Bydd hyn yn gefn i'n dealltwriaeth ac yn cynyddu unrhyw gyfleoedd i gydweithredu yn sylweddol. | Erbyn Mawrth 2022 bydd y Bwrdd wedi:<br>▪ Cwblhau ymarfer lefel uchel i bennu cwmpas partneriaethau posibl yn y rhanbarth.<br>▪ Nodi cyfleoedd i gydweithio ar waith sydd eisoes yn bodoli a chamau gweithredu cytûn i symud ymlaen gyda hyn<br>▪ Cytuno ar adroddiadau data oddi wrth bartneriaethau eraill ar eu gweithgareddau diogelu allweddol |
| **Cymunedau Diogel** | Mae eisoes gan y Bwrdd gysylltiadau effeithiol â'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol (PDCau). Eleni byddwn ni'n gweithio gyda'r PDCau mewn perthynas â'r meysydd canlynol:<br>▪ Proses newydd yr Adolygiad Unedig Sengl o Waith Diogelu (SUSR)<br>▪ Y Bwrdd Cynllunio Rhanbarthol, yn benodol ynghylch camddefnyddio sylweddau a'r cysylltiadau ag atal hunanladdiad<br>▪ Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Throsedd Casineb<br>▪ Proses Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC) | Bydd y Bwrdd yn monitro cynnydd ar y gwaith cydweithredol yma trwy wneud y canlynol:<br>▪ Cytuno ar lywodraethu a gweithredu'r SUSR ar y cyd â Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Gartref<br>▪ Rhagor o ymgysylltu â darparwyr Camddefnyddio Sylweddau yn Is-grwpiau a Phaneli'r Bwrdd<br>▪ Codi ymwybyddiaeth a monitro gweithgareddau hyfforddi mewn perthynas ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Throseddau Casineb |

| | | |
|---|---|---|
| **Iechyd Meddwl** | Yn 2020, ac ar y cyd â'r Bartneriaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl Rhanbarthol, sefydlodd y Bwrdd ddull o gydweithio gyda phartneriaid er mwyn atal hunanladdiad yn y rhanbarth. Byddwn ni'n parhau â'r gwaith yma yn ystod y flwyddyn i ddod trwy wneud y canlynol:<br>▪ Gweithio gyda Chydlynydd Rhanbarthol Llywodraeth Cymru ar gyfer Atal Hunanladdiad, i gryfhau'r fframwaith llywodraethu a chynllunio ar gyfer y rhanbarth.<br>▪ Gwreiddio trefniadau o gydweithio gyda phartneriaid newydd yn llawn mewn perthynas â'r strategaeth Beth am Siarad â Fi ar gyfer Cymru. Trwy hynny sicrhau bod mesurau effeithiol ar waith i leihau nifer yr hunanladdiadau yn y rhanbarth. | Bydd y Bwrdd yn monitro cyfraddau hunanladdiad trwy edrych ar:<br>▪ Y data sy'n dod i law gan y Grŵp Adolygu Hunanladdiad rhanbarthol<br>▪ Yr adroddiadau sy'n dod i law ar gynnydd y strategaeth ranbarthol gan y Grŵp Llywio Atal Hunanladdiad |

## Blaenoriaeth Strategol 3: Gwella'r dull o ymateb i bryderon diogelu'r cyhoedd

**Beth mae hyn yn ei olygu i'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol?**

Erbyn hyn mae'r byd Diogelu yn pontio i feysydd Diogelu'r Cyhoedd, sydd â ffocws ehangach ar amddiffyn a gwella iechyd, diogelwch a lles poblogaeth gyffredinol y rhanbarth.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Bwrdd wedi sicrhau bod hyfforddiant i staff mewn perthynas â meysydd pryder a chodi ymwybyddiaeth ar draws yr holl asiantaethau partner. Mae hyn yn cynnwys camfanteisio troseddol (County Lines), radicaleiddio a chaethwasiaeth fodern. Eleni rydyn ni am gryfhau'r ffordd rydyn ni'n mynd ati i ddelio â phryderon Diogelu'r Cyhoedd trwy wreiddio hyn ymhellach i mewn i arferion diogelu a swyddogaethau'r Bwrdd.

Bydd y Flaenoriaeth yma'n cysylltu â Blaenoriaeth 2 y Cynllun yma, gan y bydd gweithio mewn partneriaeth estynedig yn rhan annatod o lwyddiant y gwaith.

| Maes Blaenoriaeth | Pa welliannau sydd angen i ni eu gwneud? | Sut byddwn ni'n mesur llwyddiant? |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| **Camfanteisio** | Mae camfanteisio'n digwydd pan fydd unigolyn neu grŵp yn manteisio ar anghydbwysedd pŵer i orfodi, rheoli, trin neu dwyllo plentyn neu oedolyn sydd mewn perygl. Mae hwn yn fater sy'n tyfu'n fwyfwy cyffredin yn y rhanbarth. Mae strwythurau eisoes ar waith mewn perthynas â chamfanteisio'n rhywiol ar blant ond mae angen ehangu ein ffocws i ystyried effaith meysydd pryder ychwanegol, gan gynnwys:<br>▪ Camfanteisio troseddol<br>▪ Ymosodiadau Ar-lein<br>▪ Radicaleiddio<br>▪ Camfanteisio cudd a materion sy'n dod i'r amlwg o'r pandemig | Bydd gan y Bwrdd y canlynol yn ei le erbyn Mawrth 2022:<br>▪ Strategaeth Camfanteisio a fydd yn nodi sut y byddwn ni'n ymateb i feysydd pryder sydd wedi'u nodi'n flaenoriaeth<br>▪ Byddwn ni'n cytuno ar drefniadau monitro i'w adrodd i'r Bwrdd bedair gwaith y flwyddyn |
| **Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl** | Mae'r Bwrdd am sicrhau bod gwaith sydd wedi'i dargedu yn cael ei wneud gydag asiantaethau partner ac ar y cyd â'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol i:<br>▪ Datblygu ymateb amlasiantaethol trwy Grŵp Llywio Caethwasiaeth Fodern ranbarthol, a'i weithredu<br>▪ Nodi'r cysylltiadau â radicaleiddio trwy gysylltu â'r prosesau Atal a Chystadlu | Bydd y Bwrdd, ar y cyd â'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, yn sicrhau:<br>▪ Bod y Grŵp Llywio Caethwasiaeth Fodern wedi'i sefydlu ac yn adrodd ar gynnydd bob chwarter<br>▪ Bod hyfforddiant rhanbarthol yn cael ei ddarparu a bod adrodd yn ôl yn digwydd bob chwarter |
| **Diogelu Cyd-destunol** | Mae Diogelu Cyd-destunol yn ddull o ddeall ac ymateb i brofiad pobl ifainc o niwed sylweddol y tu hwnt i amgylchedd y teulu. Unwaith eto, mae cysylltiadau cryf â Chamfanteisio a defnyddio Diogelu Cyd-destunol i reoli ymateb. Yn sgil hynny, byddwn ni'n: | Bydd y Bwrdd yn sicrhau:<br>▪ Bod dull rhanbarthol o Ddiogelu Cyd-destunol ar waith a bod cynnydd o ran y gweithredu yn cael ei adrodd yn ôl. |

| | | |
|---|---|---|
| | ▪ Datblygu dull rhanbarthol o ran Diogelu Cyd-destunol (dolen i'r WSP) | |

### THEMA GYFFREDIN – YMGYSYLLTU, CYFRANOGI A CHYFATHREBU

Wrth ei waith eleni, bydd y Bwrdd yn sicrhau ei fod yn parhau i chwilio am gyfleoedd i ymgysylltu â phlant, oedolion sydd mewn perygl, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol. Byddwn ni'n cynyddu ystod o ddulliau cyfathrebu i'r eithaf i rannu gwybodaeth ac yn gwahodd pobl i gymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd. Yn ogystal â'r hyn sydd eisoes wedi'i grybwyll, bydd y Bwrdd yn gwneud y canlynol:

- Gweithredu Strategaeth Cyfranogi i gynorthwyo gyda'r ymgysylltu rydyn ni'n ei wneud â'n cymunedau, ac annog cyfranogiad pob grŵp, gan gynnwys pobl ifainc, yng ngwaith y Bwrdd.
- Trafod a chytuno ar y pynciau/meysydd gwaith allweddol sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Blynyddol yma er mwyn annog pobl i fod yn rhan ohonyn nhw
- Manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a ddaw yn sgil yr Wythnos Genedlaethol Diogelu i wella'n gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu
- Nodi'r pwyntiau cyswllt allweddol yn ein hasiantaethau partner sydd eisoes â chysylltiadau cryf yn y gymuned i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gynnwys y gymuned.
- Ystyried defnyddio sianeli cyfathrebu ar draws ein partneriaid i sicrhau'r cyrhaeddiad mwyaf posibl.

## 3. Â PHWY YDYN NI'N BWRIADU CYDWEITHIO I GYFLAWNI'N HAMCANION?

Mae cydweithio'n effeithiol â phartneriaethau ac asiantaethau eraill, boed hynny ar sail ranbarthol neu genedlaethol, yn allweddol i gyflawni swyddogaethau'r Bwrdd yn effeithiol.

Yn ogystal â'r partneriaethau rydyn ni eisoes wedi'u nodi, byddwn ni'n datblygu a/neu wella gwaith ar y cyd fel a ganlyn:

| Â phwy y byddwn yn cydweithio? | Meysydd ar gyfer cydweithio? |
|---|---|
| **Llywodraeth Cymru** | ▪ Polisïau a deddfwriaeth sy'n ymwneud â diogelu<br>▪ Rhannu Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion<br>▪ Canllawiau Ymarfer ar gyfer diogelu |
| **Arolygiaethau Cenedlaethol** | ▪ Derbyn adroddiadau a chynlluniau gweithredu mewn perthynas ag arolygiadau asiantaethau partner |
| **Y Trydydd Sector** | ▪ Annog ei gyfranogiad yng ngwaith y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol<br>▪ Hyfforddiant Diogelu<br>▪ Atal Hunanladdiad<br>▪ Camfanteisio |
| **Byrddau Diogelu Rhanbarthol Eraill** | ▪ Polisïau a gweithdrefnau cyson ledled Cymru<br>▪ Rhannu'r hyn rydyn ni wedi'i ddysgu ac arfer gorau<br>▪ Rhannu Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion<br>▪ Cynnal gweithgareddau hyfforddi a chyfathrebu ar y cyd |
| **Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol** | ▪ Gofyn am gyngor ar faterion diogelu cenedlaethol |

## 4. EIN CYLLIDEB AR GYFER 2021-2022

Mae cyllideb y Bwrdd ar gyfer y flwyddyn yn cael ei hariannu gan gyfraniadau ariannol yr asiantaethau partner statudol. Bydd y gyllideb yn galluogi'r Bwrdd i gyflawni deilliannau ei flaenoriaethau fel sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Blynyddol yma. Bydd yn cael ei dyrannu fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Costau Staff a Swyddfeydd yr Uned Rheoli Busnes: | £286,290 |
| Gwariant Cyffredinol: | £16,180 |

## Ydych chi'n Poeni am Rywun?

Os ydych chi'n amau bod **plentyn neu berson ifanc** yn cael ei niweidio, neu mewn perygl o gael ei niweidio, mae dyletswydd arnoch chi i roi gwybod amdano ar unwaith. Bydd pob galwad sy'n ymwneud â phryderon yn cael ei chymryd o ddifri. Ffoniwch eich Carfan Diogelu leol ar y rhifau isod:

Rhondda Cynon Taf: 01443 425006
Merthyr Tudful: 01685 725000
Pen-y-bont ar Ogwr: 01656 642320

Oriau agor:
Dydd Llun i Ddydd Iau: 8.30am – 5.00pm
Dydd Gwener: 8.30am – 4.30pm

Os ydych chi'n amau bod **oedolyn** yn cael ei niweidio, neu'n wynebu risg o gael ei niweidio, mae dyletswydd arnoch chi i roi gwybod amdano ar unwaith. Bydd pob galwad sy'n ymwneud â phryderon yn cael ei thrin o ddifri. Ffoniwch eich Carfan Diogelu leol ar y rhifau isod:

Rhondda Cynon Taf: 01443 425003
Merthyr Tudful: 01685 725000
Pen-y-bont ar Ogwr: 01656 642477

Oriau agor:
Dydd Llun i Ddydd Iau: 8.30am - 5.00pm
Dydd Gwener: 8.30am – 4.30pm

I gysylltu â'r Gwasanaethau i Blant neu'r Gwasanaethau i Oedolion y tu allan i oriau'r swyddfa, dros y penwythnos ac ar wyliau banc, ffoniwch Garfan ar Ddyletswydd ar gyfer Argyfyngau Cwm Taf Morgannwg ar 01443 743665.

**Os ydych chi'n amau bod plentyn, person ifanc neu oedolyn yn wynebu risg uniongyrchol o niwed, ffoniwch 999 a siarad â'r Heddlu.**

Os ydych chi eisiau rhoi gwybod am ddigwyddiad lle does dim angen ymateb ar frys, neu os oes ymholiad cyffredinol gyda chi, ffoniwch 101, sef rhif ffôn 24 awr yr heddlu ar gyfer achosion sydd ddim yn rhai brys. ***Ffoniwch 101 pan fydd y digwyddiad yn llai difrifol.***

## Cofiwch – mae diogelu yn fater i bawb!

**I gael rhagor o wybodaeth a chyngor ewch i: [www.ctmsb.co.uk](http://www.ctmsb.co.uk)**

## ATODIAD 1 – AELODAU'R BWRDD

| ENW | TEITL | ASIANTAETH |
|---|---|---|
| Paul Mee (Cadeirydd) | Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Lisa Curtis-Jones (Is-gadeirydd) | Prif Swyddog, Gwasanaethau Cymdeithasol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
| Claire Marchant (Is-gadeirydd) | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Cheryl Emery | Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Jackie Neale | Rheolwr y Gwasanaeth Diogelu Oedolion | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Neil Elliot | Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau i Oedolion | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Julie Clark | Pennaeth Diogelu a Chymorth (Plant) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Gaynor Davies | Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Annabel Lloyd | Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Blant | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Cara Miles | Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol – Gofal yn y Gymuned a Phlant | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Jon Eyre | Blaen Reolwr Diogelu | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
| Alyn Owen | Prif Swyddog, Adfywio Cymunedol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
| Susan Walker | Prif Swyddog, Addysg | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |

| | | |
|---|---|---|
| Taryn Stephens | Pennaeth y Gwasanaethau i Blant | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
| Angela Edevane | Pennaeth Gwasanaethau i Oedolion | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
| Carys Kennedy | Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
| Jacqueline Davies | Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Laura Kinsey | Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Blant | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Nicola Echanis | Pennaeth Addysg a Gwasanaethau i Deuluoedd | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Greg Dix | Cyfarwyddwr Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau i Gleifion | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg |
| Louise Mann | Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Ansawdd a Diogelwch | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg |
| Karen Thomas | Uwch-arolygydd, Uned Reoli Sylfaenol y Gogledd | Heddlu De Cymru |
| Sue Hurley / John Lane | Rheolwr Annibynnol Amddiffyn Pobl sy'n Agored i Niwed | Heddlu De Cymru |
| Eirian Evans | Prif Swyddog Cynorthwyol | Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |
| Sharon Richards | Prif Swyddog | Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful |
| Maria James | Cynrychiolydd y Trydydd Sector, Merthyr Tudful | Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful |
| Lyndon Lewis | Pennaeth Gwasanaeth | Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc Cwm Taf |
| Virginia Hewitt | Nyrs Dynodedig (Carfan Diogelu Cenedlaethol) | Iechyd Cyhoeddus Cymru |

| | | |
|---|---|---|
| Nikki Harvey | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf | Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| Jason Evans | Pennaeth Uned Pobl Ifainc | Sefydliad Carchardai a Throseddwyr Ifainc EM, Parc |
| Ian Coles | Dirprwy Gyfarwyddwr Dros Dro | Sefydliad Carchardai a Throseddwyr Ifainc EM, Parc |

# ATODIAD 2 – STRWYTHUR Y BWRDD

